

# Archwilio Cerrig Beddi

## Deall Cerrig Beddi





- Os oes rhywun yn marw ac yn cael ei gladdu yn y fynwent, fel arfer mae'n cael carreg fedd.
- Mae cerrig beddi'n rhoi ffeithiau sylfaenol fel enw'r person, ble gawson nhw eu geni a phryd buon nhw farw.
- Mae rhai cerrig beddi hŷn hefyd yn nodi cyfeiriad person.
- Gall rhai ddweud ble neu sut bu person farw.
- Gall siâp a maint carreg fedd hefyd roi cliwiau.
- Mae cerrig beddi pobl fu farw mewn rhyfeloedd i gyd yn edrych yn debyg iawn.

## Sut mae dysgu rhagor am gerrig beddi?

- Dechreuwch gyda'r garreg fedd ei hun. Mae cerrig beddi mawr yn costio mwy.
- Ydy hi'n gywrain gyda cherfiadau neu gerflun arni?
- Edrychwch ar y geiriau ar y garreg fedd. Allwch chi ddod o hyd i enw'r person a phryd cawson nhw eu geni a phryd buon nhw farw? (Mae llawer o gerrig beddi yn defnyddio ymadroddion fel 'aeth i gysgu' neu 'yng nghwmni Duw' yn hytrach na dweud 'bu farw').








- Oes yna gyfeiriad ar y garreg fedd?
- Oes mwy nag un person wedi ei gladdu yn y bedd?
- I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y bedd mae angen i chi gysylltu â'r eglwys os ydy hi'n fynwent, neu'r cyngor lleol os ydy hi'n fynwent gyhoeddus. Bydd y ddau le â chofnodion yn nodi pwy brynodd y bedd a phwy sydd wedi ei gladdu yno.
- Gall fod yna adroddiad am yr angladd ac ysgrif goffa mewn papurau newydd yn y llyfrgell leol. Darn byr ydy'r ysgrif goffa sy'n adrodd hanes bywyd y person sydd wedi marw.
- Os ydych chi'n gwybod beth oedd gwaith y person a ble roedden nhw'n byw, bydd hen lyfrau yn eich llyfrgell leol sy'n cael eu galw'n gyfeiriaduron tref, a fyddai'n dweud wrthoch chi ble roedden nhw'n gweithio.

© BBC





Mae hyn yn golygu bod y cyhoedd wedi rhoi arian i brynu carreg fedd y person hwn. Mae'n coffáu parasiwtydd ifanc fu farw yn ystod Arddangosfa Caerdydd.




Roedd un o'r bobl yma wedi boddi ond sut ydych chi'n meddwl bod rhywun 74 oed wedi ei ladd gan y gelyn yn 1942?




Mae yna nifer o ffyrdd o ddweud 'bu farw'.



Roedd pobl Oes Fictoria'n hoff iawn o gerfluniau ar eu beddi.



Mae hwn yn fwy o gofadail na charreg fedd. Byddai'n ddrud iawn i'w phrynu. Mae'n nodi ble cafodd nifer o aelodau teulu arglwydd eu claddu.

© BBC